

Jeremy Miles AC/AM
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L/CG/0475/19

Llŷr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

18 Mehefin 2019

Annwyl Llŷr,

BIL DEDDFWRIAETH (CYMRU)

Diben y llythyr hwn yw rhoi gwybod i'r Pwyllgor fy mod i wedi gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol heddiw Femorandwm Esboniadol diwygiedig i'r Bil. Mae'r Memorandwm yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i'r Bil yn ystod y trafodion Cyfnod 2.

Newidiadau i adran 2(7) oedd un o'r newidiadau hynny. Mae'r adran hon yn awr yn darparu ar gyfer adroddiad blynyddol i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y cynnydd a wnaed o dan raglenni i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Mae paragraff 161 o'r Memorandwm Esboniadol (a Thabl 6) yn ymdrin â'r adroddiad blynyddol, ond hoffwn dynnu eich sylw hefyd at baragraffau newydd 217 a 218 sy'n ymdrin â'r adolygiad ôl-weithredu. Byddwch yn gweld bod hyn yn adlewyrchu'r ymrwymadau a roddwyd eisoes gan y Llywodraeth i adolygu effeithiolrwydd y Bil hanner ffordd drwy'r rhaglen gyntaf i gael ei chyflwyno o dan Ran 1 (hy yn 2023), ac mae'n rhoi ystyriaeth i'r adroddiad gan y Pwyllgor hwn yng Nghyfnod 1 (yn arbennig argymhelliad 2).

Rwy'n cadarnhau hefyd, yn unol ag argymhelliad 3 o adroddiad y Pwyllgor, fod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael ei ddiweddarau i roi rhagor o wybodaeth am y goblygiadau ariannol i staff polisi nad ydynt wedi'u costio yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol – gweler paragraffau 145 a 146 yn benodol.

Yn gywir,

Jeremy Miles AC
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

PSCGBM@gov.wales/YPCCGB@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.